Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Dulliau rhyngwladol o reoli darpariaeth lleoliadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

**Keith Moultrie a Simon Bilous**
Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Brookes Rhydychen
Mawrth 2020

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael tystiolaeth annibynnol gadarn ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio, ac i ddefnyddio'r dystiolaeth honno. Maent yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfosod a datgelu tystiolaeth sy'n bodoli a chanfod bylchau lle mae angen cynhyrchu tystiolaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i ateb heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi, a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Maent yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ganfod, cyrchu a defnyddio tystiolaeth ddibynadwy ac arbenigedd annibynnol a all helpu i roi sail i bolisïau a'u gwella;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio i ateb heriau allweddol economaidd a chymdeithasol; a
- Galw ar eu gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus, i ddatblygu dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth roi sail i bolisïau a gwasanaethau cyhoeddus, a'u gwella, a chyfrannu at ddamcaniaethau ar gyfer llunio polisïau a'u rhoi ar waith.

Drwy gyfrwng secondiadau, lleoliadau PhD a'u rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymchwilwyr i wneud gwaith ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau ac yn effeithiol.

Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan https://www.wcpp.org.uk

## Arianwyr Craidd


Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae prifysgol uchelgeisiol ac arloesol Caerdydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o adeiladu perthnasoedd rhyngwladol cryf gan ddangos ei hymrwymiad i Gymru hefyd.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England at ei gilydd i gynyddu cyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu ynddo.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, ac mae'n gyfrifol am feysydd allweddol o ran bywyd cyhoeddus gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Crynodeb** 4

**Rhagarweiniad** 5

**Cwmpas y dadansoddiad** 8

Lleoliadau a chomisiynu 8

Gwahanol drefniadau, heriau cyffredin 9

Pa blant a phobl ifanc sydd dan sylw yma? 11

**Themâu allweddol** 12

Thema 1: Y cydbwysedd rhwng ailuno a sefydlogrwydd o ran arferion lleoli 13

Thema 2: Sicrhau llais y plentyn a'r teulu wrth wneud penderfyniadau am leoliadau 15

Thema 3: Y cydbwysedd rhwng darpariaethau gwladwriaethol a phreifat a darpariaethau'r trydydd sector 17

Thema 4: Y mathau o wasanaethau lleoli sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc 21

Thema 5: Dulliau comisiynu strategol, caffael, llunio'r farchnad, cystadlu rhwng darparwyr, a chydweithredu 25

**Ffyrdd ymlaen** 28

Thema 1: Ailuno/sefydlogrwydd 28

Thema 2: Llais y plentyn a'r teulu 29

Thema 3: Cydbwyso darpariaethau gwladwriaethol a phreifat a darpariaethau'r trydydd sector 29

Thema 4: Gwasanaethau lleoli 30

Thema 5: Comisiynu strategol, caffael, a chystadleuaeth 30

**Cyfeiriadau** 31

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol am ddulliau rheoli darpariaeth lleoliadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan nodi meysydd allweddol i'w dadansoddi ymhellach.

- Rydym yn nodi pum maes dargyfeirio allweddol rhwng y gwledydd a astudiwyd a fyddai'n addas i'w hastudio ymhellach.

- **Y cydbwysedd rhwng ailuno a sefydlogrwydd**: O'u cymharu â'r DU, mae rhai gwledydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfrifoldebau parhaus rhieni biolegol ac yn cyfeirio mwy o adnoddau at hybu ailuno.

- **Cynnwys llais plant a theuluoedd wrth wneud penderfyniadau am leoliadau**: Mae rhai gwledydd yn rhoi pwyslais cryfach a mwy annatod i gynnwys lleisiau plant a rhieni yn y broses barhaus o wneud penderfyniadau am yr hyn sydd orau i'r plentyn neu'r person ifanc.

- **Y cydbwysedd rhwng darpariaethau gwladwriaethol a phreifat a darpariaethau'r trydydd sector:** Er bod gan wledydd wahanol ddulliau o gydbwyso darpariaethau gwladwriaethol a phreifat a darpariaethau'r trydydd sector, mae'n rhaid i bawb ystyried sut i reoli'r cydbwysedd rhwng y darparwyr yn eu system yn effeithiol. Rydym yn cyflwyno enghreifftiau o sut y mae gwledydd yn rheoli risgiau a manteision gwahanol ffyrdd o gydbwyso darpariaethau.

- **Y mathau o wasanaethau lleoli**: Mae gwledydd yn defnyddio gwahanol fathau o leoliadau mewn modd hyblyg i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys dulliau sy'n mynnu cefnogaeth ddwys ac ymatebol.

- **Dulliau comisiynu strategol**: Rydym yn awgrymu'r meysydd canlynol ar gyfer dadansoddiad cymharol pellach – y mecanweithiau a ddefnyddir gan gomisiynwyr strategol, costau a thaliadau am leoliadau, cymariaethau o gapasiti'r farchnad, dewis a rheoli'r farchnad.

- Er bod gwahaniaethau pwysig rhwng y gwledydd a astudiwyd, maent i gyd yn wynebu llawer o heriau tebyg. Er enghraifft, roedd pryder ym mhob gwlad am gostau gofal a nifer y lleoliadau addas sydd ar gael. Ni ellir dweud bod unrhyw wlad wedi 'datrys' problem comisiynu strategol.

# Rhagarweiniad

Yn 2019, bu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) yn gweithio gyda'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Brookes Rhydychen (SGC) i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol ynglŷn â dulliau rheoli darpariaeth lleoliadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel rhan o brosiect mawr gan CPCC i ystyried dulliau newydd o reoli darpariaeth lleoliadau yng Nghymru. Diben cyffredinol y prosiect oedd:

- Ystyried sut mae'r dulliau mewn gwahanol wledydd yn amrywio.
- Meddwl am y ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y dulliau hyn.
- Ystyried a oes gweithgareddau, gwasanaethau a threfniadau yn unrhyw le arall y gallai fod yn werth eu harchwilio ymhellach, ac a oes agweddau ar system Cymru y dylid gwneud mwy i'w harchwilio neu eu profi.

Yng nghyfnod cyntaf y prosiect, buom yn disgrifio, gan ddefnyddio ffynonellau cyhoeddedig a ffynonellau ar-lein, sut mae'r trefniadau sylfaenol yn gweithio mewn gwahanol wledydd. Yn yr ail gyfnod, dilynwyd hyn ag ymchwiliad manylach drwy gynnal cyfweliadau yn rhai o'r gwledydd hyn, gan arwain at gwblhau'r adroddiad hwn.

## Methodoleg

Yn y cyfnod cyntaf, buom yn cynnal ymarfer desg gan ddefnyddio llyfrgell y Brifysgol ac adnoddau ffurfiol ac anffurfiol eraill yn ymwneud â'r gwledydd a nodwyd yn y fanyleb: Awstralia, Canada, Denmarc, yr Almaen, Hwngari, Seland Newydd, Norwy, Gweriniaeth Iwerddon, Sweden, UDA, ac yn y DU Lloegr a'r Alban. Dyma'r cwestiynau allweddol a ddefnyddiwyd i gyrchu'r deunydd, er bod y posibilrwydd o ateb y rhain wedi amrywio o wlad i wlad:

1. Sut caiff comisiynu strategol, contractio, darpariaeth, paru a monitro lleoliadau eu trefnu a'u rheoli mewn gwahanol wledydd?
2. Sut cafodd y systemau hyn eu datblygu?
    a. Beth yw diben gofal? (Gan ystyried diwylliant, ideoleg, a chysylltiadau ag addysgeg gymdeithasol, dulliau unioni ac adfer, gofal therapiwtig ac ati, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a dyletswyddau statudol.)
    b. Sut maent yn deall 'angen'?
3. Beth yw'r gwahanol elfennau ar ddarparu gwasanaethau, a sut mae'r rhain wedi'u dosbarthu ar draws systemau, gan gynnwys ffynonellau preifat, cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol?

**4** Beth yw'r agweddau allweddol ar y broses o reoli darpariaethau?

a. Sut caiff lleoliadau eu paru ag anghenion?

b. Beth yw natur y berthynas rhwng y wladwriaeth a darparwyr?

c. Sut maent yn rhagfynegi newidiadau i'r angen ac yn ymateb iddynt?

d. Beth yw'r model ariannol ar gyfer rheoli cyflenwad lleoliadau? Lle bo'n bosibl, dylid darparu asesiad o gostau.

e. Beth yw'r model ar gyfer rheoli ansawdd y ddarpariaeth? (gan ystyried dealltwriaeth pob gwlad o 'sut mae da'n edrych'.)

Yn ail gyfnod y prosiect, buom yn siarad yn uniongyrchol ag uwch ymarferwyr profiadol a rheolwyr gwasanaethau yn y gwledydd hyn mewn cyfweliadau dros y ffôn, gan brofi ein dealltwriaeth o'r deunyddiau ysgrifenedig a ganfuwyd gennym, a gofyn iddynt rannu eu safbwyntiau ynghylch ymarferoldeb ac effeithiolrwydd eu trefniadau lleol, a sut yr oeddent yn rhoi 'polisi' ar waith yn ymarferol. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r cyfweliadau hyn yn ddienw ac felly nid oes enwau yn yr adroddiad hwn, ond rydym yn ddiolchgar iawn i'r rheini a gyfwelwyd, ac i'r asiantaethau cenedlaethol a lleol ym mhob gwlad a fu mor barod i ymateb i'n ceisiadau am gyfweliadau. Yn ystod y cyfweliadau, gofynnwyd iddynt roi sylwadau am ein dealltwriaeth o'r trefniadau yn eu gwlad hwy yn unig, a lle'r ydym wedi dibynnu ar fanylion y cyfweliadau hyn, rydym yn nodi hyn yn y testun drwy gyfeirio at ‘gwybodaeth yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol Awst/Medi 2019'. Ein cyfrifoldeb ni yn llwyr yw unrhyw gamgymeriadau yn y disgrifiadau neu'r dyfarniadau gwerth yn y dadansoddiad.

Wrth gwrs, dim ond mewn termau cyffredinol iawn yr ydym wedi gallu crynhoi'r trefniadau mewn gwahanol wledydd. Mae ansawdd y data a'r llenyddiaeth yn amrywio'n fawr, ac ychydig iawn o lenyddiaeth academaidd sy'n rhoi golwg gyffredinol gynhwysfawr ar systemau comisiynu a lleoli – mae'n tueddu i ganolbwyntio ar ymyriadau, methodolegau neu arferion penodol. Felly, nid ydym yn cynnig systemau 'gwell' na 'gorau', yn ffurfio casgliadau am effaith systemau ar ganlyniadau, nac yn dadlau o blaid nac yn erbyn gwahanol drefniadau marchnad neu drefniadau comisiynu. Hefyd, bydd trefniadau ac arferion manwl yn amrywio o dalaith i dalaith, o ardal i ardal, ac mewn rhai achosion o dîm i dîm, felly mae angen i ni bwysleisio nad yw'r disgrifiadau o reidrwydd yn fanwl gywir ar gyfer pob gwasanaeth neu ardal yn unrhyw un wlad. Serch hynny, rydym yn meddwl eu bod yn werthfawr gan eu bod yn dangos gwahanol ffyrdd o ymateb i'r her o ganfod y lleoliad iawn i'r plentyn iawn, a gallent ysgogi trafodaeth bellach ac efallai ymchwiliad pellach yng Nghymru.

Yn anochel, bydd adroddiad fel hwn yn oddrychol i raddau helaeth, gan ei fod yn seiliedig ar lenyddiaeth a chyfweliadau wedi'u dehongli gan y bobl a gynhaliodd yr ymarfer. Nid ydym yn ymddiheuro am hyn a gobeithiwn fod profiad SGC o weithio gyda llywodraethau cenedlaethol a lleol ledled y DU i gomisiynu, llunio a darparu gwasanaethau i blant, a phrofiad


uniongyrchol ein tîm o ymarfer a chomisiynu yn y maes hwn, yn cyfiawnhau rhai o'r datganiadau a wneir.

Mae adran nesaf yr adroddiad yn rhoi golwg gyffredinol ar gwmpas ein dadansoddiad. Dilynir hyn gan y canfyddiadau a thrafodaeth am bum thema allweddol a ddaeth i'r amlwg drwy'r dadansoddiad. Mae adran ganlynol yn awgrymu meysydd i'w dadansoddi neu eu harchwilio ymhellach.

# Cwmpas y dadansoddiad

## Lleoliadau a chomisiynu

Mae'r prosiect hwn wedi edrych ar faes cymharol eang sy'n ymwneud â strategaethau darparu a chomisiynu gwasanaethau (a ddarperir gan awdurdodau lleol a hefyd gan y sector annibynnol). Mae hyn yn cynnwys cyfres eang o drefniadau ym mhob gwlad; dyma grynodeb:




*Ffigwr 1: Trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a allai fod ag angen gofal*

Mae'r elfennau hyn i gyd yn bodoli ar ryw ffurf neu'i gilydd ym mhob gwlad dan sylw. Wrth gwrs, mae llawer o'r termau'n golygu pethau ychydig bach yn wahanol mewn gwahanol wledydd, felly rydym wedi ceisio dehongli gwahanol ymadroddion yn briodol ac, yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r termau hyn yn y modd y cânt eu defnyddio fel rheol yng Nghymru.

Mae'r cwmpas eang yn cynnwys cyfres eang arall o drefniadau sy'n ymwneud yn benodol â chomisiynu. Archwilir a dehonglir y rhain yn yr adroddiad gan ddefnyddio'r termau sy'n gyffredin yng Nghymru. Yn benodol, rydym wedi cyfeirio at Gylch Comisiynu'r SGC, a

ddefnyddir mewn llywodraeth genedlaethol a lleol ledled y wlad, i ddisgrifio'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n gyffredin i strategaethau'r wladwriaeth ar gyfer comisiynu a chaffael gwasanaethau.




*Ffigwr 2: Cylch Comisiynu'r SGC (SGC, 2017: 4)*

## Gwahanol drefniadau, heriau cyffredin

O ystyried y gwahaniaethau diwylliannol, hanesyddol a gwleidyddol a all fodoli, mae angen i unrhyw gasgliadau sy'n deillio o'r math hwn o ymchwil ystyried yr heriau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â cheisio cyffredinoli neu drosglwyddo dulliau a pholisïau o un wlad neu ranbarth i un arall, a hefyd a gyflawnir canlyniadau tebyg ai peidio. Fel y nododd Ezell et al (2011: 1847), mae'r cwestiwn ynghylch a all gwasanaeth neu raglen sy'n llwyddiannus mewn un awdurdodaeth gyflawni'r un canlyniadau yn rhywle arall yn 'her fawr o ran llesiant plant'.

Fel y gellid disgwyl, ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng y ffyrdd y mae gwahanol wledydd yn darparu ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc os na all eu rhieni biolegol ofalu amdanynt yn ddiogel neu'n ddigonol am ba bynnag reswm. Mae'r gwledydd a astudiwyd yn amrywio o ran:

- Diben sylfaenol 'gofal', a'r nod polisi cymdeithasol y mae'n ceisio ei gyflawni.
- Cydbwysedd gwasanaethau (e.e. rhwng maethu, mabwysiadu a gofal preswyl).
- Pwy sy'n darparu gwasanaethau (e.e. preifat, cyhoeddus-preifat, menter gymdeithasol, gwirfoddol, cyhoeddus).
- Pwy sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar ddiogelu unigolion, asesu, paru a chymorth i leoliadau (gwasanaethau cyhoeddus lleol, y llysoedd, sector gwirfoddol neu breifat dan gontract, dinasyddion a phobl ifanc eu hunain).
- Y berthynas rhwng cyfrifoldebau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol dros bolisïau, cynllunio a chomisiynu.
- Ansawdd ac arolygu (llywodraeth ganolog, cyrff cenedlaethol, proffesiynau).

Hefyd, yn bwysig, ceir amrywiadau o fewn gwledydd (e.e. rhwng rhanbarthau neu daleithiau). Mae hyn oll yn golygu bod rhaid i ni fod yn ofalus ynghylch tybio y bydd trefniadau, gwasanaethau neu weithgareddau sy'n ymddangos yn llwyddiannus (neu'n aflwyddiannus) yn un wlad yn briodol neu'n llwyddiannus yn unrhyw wlad arall, ac yng Nghymru yn benodol.

Serch hynny, ar draws y gwledydd yr edrychwyd arnynt – a gellid disgrifio bron bob un ohonynt fel gwledydd gorllewinol cymharol gyfoethog – roedd y wladwriaeth yn ceisio ymdopi â nodweddion tebyg pwysig o ran materion gofal a chymorth i blant, ac mae'r rhain yn atseinio llawer o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau yng Nghymru ar hyn o bryd:

- Mae pob gwlad yn pryderu am ganlyniadau sy'n ymddangos yn waeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o'u cymharu â'u grwpiau cyfoedion nad ydynt yn derbyn gofal, boed hynny mewn cysylltiad â chanlyniadau iechyd ac addysg, neu gyfleoedd bywyd cyffredinol.
- Mae pob gwlad yn pryderu am niferoedd y plant sy'n dod i mewn i ofal y wladwriaeth ac yn aros yno. Mae bron bob un yn gweld cynnydd cyson a pharhaus yn y niferoedd hyn er gwaethaf ymdrechion unedig i gynorthwyo teuluoedd ac osgoi gorfod lleoli plant mewn gofal dirprwyol.
- Mae llawer o wledydd o'r farn bod plant o grwpiau lleiafrifol a/neu grwpiau dan anfantais wedi'u gor-gynrychioli yn eu poblogaethau gofal, gan gynnwys plant o boblogaethau brodorol mewn rhai achosion.

- Mae cost gofal yn parhau i godi yn y rhan fwyaf o wledydd. Mae cynnydd mewn proffesiynoldeb a phrinder darpariaeth yn cynyddu costau cyfartalog.
- Mae prinder lleoliadau ar gael, ac yn aml mae sefydliadau yn y rhan fwyaf o'r gwledydd y siaradwyd â hwy'n ei chael yn anodd dod o hyd i leoliadau priodol, yn enwedig i blant a phobl ifanc sy'n 'anodd eu lleoli', am unrhyw gost.
- Yn gyffredinol, bu mwy o symudiad yn ddiweddar tuag at ddewis gofal maeth mewn amgylchedd teuluol dros drefniadau preswyl, hyd yn oed mewn gwledydd â thraddodiad hir o sefydliadau mawr.
- Yn gyffredinol, ceir tuedd i ddewis a blaenoriaethu defnyddio gofal maeth 'gan berthynas' (h.y. gofalwyr y mae'r plentyn a'r teulu eisoes yn eu hadnabod) yn hytrach na gan rywun arall.
- Yn aml, ceir cymysgedd o ran darparwyr gofal; bydd gwledydd yn darparu rhywfaint o ofal (maeth a phreswyl) yn uniongyrchol drwy gyfrwng sefydliadau'r wladwriaeth ei hun, yn ogystal â defnyddio darparwyr annibynnol. Nid oes unrhyw wlad yn dibynnu'n llwyr ar ofal a ddarperir gan y wladwriaeth.
- Mae darparwyr gofal annibynnol (ar ba bynnag ffurf) yn tueddu i gynnwys cyfuniad o gyrff gwirfoddol/elusennol/dielw a rhyw bresenoldeb yn y farchnad i sefydliadau er-elw – sy'n amrywio'n sylweddol o le i le.

O archwilio arferion a threfniadau yn y gwahanol wledydd, rydym wedi canfod pum thema allweddol lle mae'n ymddangos bod gwahanol wledydd yn defnyddio gwahanol ddulliau, gan gynnwys rhai dulliau y gallai fod yn werth eu harchwilio ymhellach yng Nghymru. Byddwn yn ystyried y rhain yn yr adran nesaf.


## Pa blant a phobl ifanc sydd dan sylw yma?

Eto, rydym wedi defnyddio cwmpas eang yma. Mae ein cylch gwaith wedi cynnwys yr holl blant a phobl ifanc ag angen lleoliad mewn gofal sydd y tu hwnt i'w teulu biolegol neu wreiddiol. Rhoddwyd ffocws penodol ar blant sy'n dod i mewn i'r system gofal oherwydd bod eu rhieni'n methu gofalu amdanynt neu'n anfodlon gwneud hynny, nad ydynt yn ddiogel gyda hwy, neu fod ganddynt anghenion sy'n golygu bod angen pecynnau gofal cymhleth oherwydd anabledd ac na all eu teulu roi'r cymorth sydd ei angen gartref.

Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc â gwahanol anghenion – ac wrth gwrs mae'r lefelau trothwy'n wahanol mewn gwahanol wledydd.

# Themâu allweddol

Rydym wedi casglu gwybodaeth a thystiolaeth o wahanol wledydd, cymharu eu systemau â'i gilydd ac â'n gwybodaeth am systemau Cymru, a chanfod pum thema sydd, yn ein tyb ni, yn cynnig syniadau i'w harchwilio neu eu datblygu ymhellach yng Nghymru. Nid ydym wedi ceisio tystiolaeth na data ffurfiol i awgrymu a fyddai un system yn fwy effeithiol nag un arall, ond rydym wedi ceisio awgrymu, lle bynnag y bo'n briodol, gwledydd neu ardaloedd y byddai'n werth eu targedu i'w harchwilio ymhellach. Dyma'r pum thema allweddol:




*Ffigwr 3: Pum thema allweddol a nodwyd yn yr ymchwil hwn*

Yn sicr, mae'r themâu'n cydberthyn i'w gilydd ac, mewn rhai achosion, maent yn gorgyffwrdd. Rydym yn ceisio cydnabod hyn yn y trafodaethau ond rydym yn meddwl bod pob thema'n cyflwyno syniadau diddorol a heriol i symbylu meddyliau llunwyr polisïau, arweinwyr gwasanaethau, comisiynwyr, ymarferwyr, a theuluoedd yng Nghymru.

## Thema 1: Y cydbwysedd rhwng ailuno a sefydlogrwydd o ran arferion lleoli

Mae'r thema hon yn mynd at wraidd y gwahanol ddulliau lleoli rhwng gwahanol wledydd yn ein cohort.

Yn ein profiad ni, mae gwledydd y DU yn tueddu i ddefnyddio dulliau lleoli sy'n canolbwyntio ar sicrhau lleoliadau parhaol, i blant sy'n methu aros gyda'u teuluoedd, cyn gynted â phosibl drwy gyfrwng gofal gan berthynas, maethu tymor hir neu (yn ddelfrydol) fabwysiadu. Yn y gwledydd hyn, o gymharu ag eraill yr ydym wedi'u hadolygu, yn draddodiadol ceir gwahaniaeth clir rhwng cyfrifoldeb rhieni cyn ac ar ôl gorchymyn gofal. Yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle darperir gofal gan rywun nad yw'n berthynas, yn aml bydd y teulu biolegol yn colli cyfrifoldeb ystyrlon dros y plentyn i'r wladwriaeth ar yr adeg hon, hyd yn oed os ydynt yn parhau i gael gweld y plentyn neu gadw mewn cysylltiad.

Yn Sweden, Seland Newydd, yr Almaen, Denmarc a Norwy, maent yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb parhaus rhieni biolegol hyd yn oed os na all y plentyn fyw gyda hwy, ac mae'n ymddangos eu bod yn fodlon goddef mwy o ansicrwydd o ran lleoliad tymor hir wrth ffocysu gofal a chymorth ar weithio gyda'r teulu fel bod modd eu hailuno. Mewn llawer o ffyrdd, mae'n ymddangos bod y ffin rhwng cymorth i'r teulu cyn yr achos gofal a chymorth i'r teulu mewn gofal dirprwyol yn llai cadarn; yn aml iawn bwriedir gofal maeth a gofal preswyl fel math o gymorth dros dro tra eu bod yn helpu teuluoedd i archwilio'r posibilrwydd y gallai'r plentyn ddychwelyd atynt, neu beth fydd eu perthynas yn y dyfodol.

Nid yw hyn yn digwydd o dan bob amgylchiadau, ac er bod y gwledydd hyn yn cydnabod nad yw'r math hwn o drefniant yn realistig ym mhob achos, dyna yw'r dull diofyn. Mae'n anodd cymharu tystiolaeth o effeithiau, ond ceir rhai enghreifftiau trawiadol.

### Cyfrifoldebau parhaus rhieni biolegol

**Yn Nenmarc (yn rhannol oherwydd y rôl a'r cyfrifoldeb a gedwir gan rieni biolegol yn gyfreithiol) rhwng 2009 a 2015 dim ond mewn 13 o achosion y trefnodd awdurdodau lleol fabwysiadu heb gydsyniad y rhieni (Smits, 2019). Yn hanesyddol, mae polisïau Denmarc wedi hybu lefelau gwariant cymharol uchel ar wasanaethau cyffredinol i gynorthwyo rhieni i ofalu am eu plant. Ynghyd â'r hyder uchel cyffredinol yng ngallu gwasanaethau gofal preswyl a maeth i helpu teuluoedd, mae hyn wedi golygu bod pobl yn gyffredinol yn fodlon derbyn ymyriad gan y wladwriaeth mewn bywyd teuluol (Ubbesun et al, 2015).**

**Yn Sweden, defnyddir dull tebyg lle mae rhieni'n cadw 'hawliau gwarcheidiaeth' dros eu plant yn ystod eu cyfnod mewn gofal maeth, a hawl i gysylltu oni bai bod rheswm penodol dros wrthod hyn. Ailuno yw'r prif sbardun i weithgarwch, yn enwedig yn ystod y 12 mis cyntaf. Yna, mae'r gyfraith yn caniatáu i ofalwyr maeth wneud cais i fod yn warcheidwaid cyfreithiol drwy 'drosglwyddo gwarchodaeth', ac yna bydd y rhieni'n colli eu hawliau dros y plentyn (Wisso a Johansson, 2018).**[1]

**Yng Nghanada, llywodraethau'r gwahanol daleithiau a thiriogaethau sy'n pennu'r rhan fwyaf o'r gyfraith sy'n ymwneud â llesiant plant. Yn Alberta, er enghraifft, ceir gofyniad cyfreithiol i ddarparu'r ymyriad lleiaf ymwthgar posibl – felly caiff plant gymorth gan deulu cyn cael eu rhoi yn y system gofal. Yna, ar ôl dechrau derbyn gofal, ailuno yw'r prif nod, a mathau eraill o sefydlogrwydd, gan gynnwys mabwysiadu, yn opsiwn wedi hynny. Ceir gofyniad hefyd i archwilio gofal 'gan berthynas' (sy'n gallu cynnwys ffrindiau neu rywun arall sy'n adnabod y plentyn e.e. athrawon/cymdogion).**[2]

**Yn yr Almaen, ystyrir bod y system llesiant plant yn 'canolbwyntio ar wasanaethau teuluol', ac mae ymyriadau'n canolbwyntio ar faterion therapiwtig a diwallu anghenion asesedig. Gwelir y berthynas rhwng y wladwriaeth a'r rhiant fel partneriaeth â gwasanaethau lleol i geisio cryfhau perthnasoedd teuluol a lleoliadau gwirfoddol. Gellir lleoli plentyn y tu allan i'r teulu gyda chaniatâd y rhieni hyd yn oed oes nad yw'r trothwy amddiffyn plant wedi'i gyrraedd, os ystyrir y byddai hynny'n gefnogol i ddatblygiad y plentyn. Gall gofalwyr maeth ddarparu cymorth a help i blant a phobl ifanc a'u paratoi naill ai i ddychwelyd at eu teulu, i ymuno â theulu arall, neu i fyw'n annibynnol. Os yw rhieni'n derbyn lleoli eu plentyn gyda theulu maeth, hwy yw'r gwarcheidwaid cyfreithiol o hyd, ond caniateir i'r rhieni maeth wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd bob dydd.**

**Yn Seland Newydd, mae'r broses o fynd i mewn i ofal yn cynnwys y teulu, a bydd gwasanaethau'n gweithio bob amser tuag at ailuno â'r teulu neu â rhwydwaith y plentyn. Defnyddir Cynadledda Grŵp Teulu yn helaeth â'r nod o ailuno, yn enwedig o fewn y 12 mis cyntaf ar ôl dechrau derbyn gofal. Ar ôl hyn, archwilir opsiynau parhaol eraill, er mai anaml iawn y defnyddir mabwysiadu.**[3]

---

Ar gyfer yr holl themâu yn yr adroddiad hwn, nid ydym yn awgrymu nad yw ailuno'n tanategu arferion asesu a lleoli yng Nghymru nac yng ngweddill y DU, nac nad yw hynny'n digwydd beth bynnag i rai teuluoedd wrth i blant dyfu'n hŷn. Yn amlwg, mewn llawer o sefyllfaoedd

[1] Mae'r wybodaeth hon hefyd yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Awst 2019.
[2] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Awst 2019.
[3] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Medi 2019.

unigol, cynorthwyir plant neu bobl ifanc a'u teuluoedd cyn ac ar ôl gofal i ailuno. Byddai'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn y maes hwn hefyd yn adnabod senario cyffredin lle mae pobl ifanc sydd wedi cael eu lleoli'n 'barhaol' mewn lleoliad arall yn aml yn dychwelyd at eu teulu biolegol neu i'w hen gymdogaeth, er gwaethaf ymdrechion gorau gofalwyr i gynnig profiad gofal gwahanol.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y 'gwledydd ailuno' yn rhannu rhai nodweddion penodol sy'n dangos bod eu polisïau a'u harferion yn wahanol i'r DU:

- Yn gyntaf, y norm diwylliannol yw y dylai teuluoedd biolegol gadw cyfrifoldeb parhaus am blant a phobl ifanc hyd yn oed pan na allant ofalu amdanynt. Nid yw'r wladwriaeth yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw'n llwyr.
- Yn ail, mae cyfleusterau lleoli fel gofal maeth a gofal preswyl yn disgwyl ymwneud yn helaeth â chynorthwyo gwaith i ailuno, yn enwedig yn y cyfnod cychwynnol ar ôl i blentyn ddechrau derbyn gofal.
- Yn drydydd, mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn gweithio ar draws y ffin rhwng 'mewn teulu' a 'mewn gofal' yn llawer rhwyddach.
- Yn olaf, mae’r fframwaith cyfreithiol yn gallu annog perthynas fwy cymhleth rhwng rhianta teuluol a rhianta corfforaethol.

Byddai angen ystyried yn fanwl cyn cymryd unrhyw gamau i'r cyfeiriad hwn yng Nghymru. Mae'n debygol y byddai angen herio tybiaethau cyfreithiol a diwylliannol sylfaenol, ac yn nhermau comisiynu byddai angen llunio a darparu cyfres wahanol iawn o drefniadau ac arferion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y llysoedd ac asiantaethau partner.

Hefyd, byddai angen amrywiaeth wahanol o arferion ac arbenigedd gan ddarparwyr, yn enwedig o ran gweithio gyda'r teulu biolegol, a gwahanol ddisgwyliadau gan rieni, yn ogystal â'r hyder a'r gallu i weithio gyda rhieni ac i wahaniaethu rhwng rhai sy'n cael 'trafferth' ond sydd â'r potensial i ailuno neu gadw rhyw lefel o gyswllt, a'r rhai lle na bydd hynny byth er pennaf les y plentyn.

Ar gyfer y thema hon, fel y lleill, rydym wedi ystyried sut gallai partneriaid yng Nghymru archwilio'r dull hwn ymhellach, a chynigir yr opsiynau yn adran derfynol 'Ffyrdd ymlaen' yr adroddiad.

## Thema 2: Sicrhau llais y plentyn a'r teulu wrth wneud penderfyniadau am leoliadau

Yng Nghymru ac yn y DU yn fwy cyffredinol, bu cydnabyddiaeth gynyddol dros y degawd diwethaf bod cymhlethdod a ffurfioldeb y prosesau gwneud penderfyniadau (gan gynnwys y llysoedd, awdurdodau lleol, y GIG ac asiantaethau eraill) yn gallu tanseilio hyder a gallu plant a'u teuluoedd i gyfrannu at benderfyniadau am statws cyfreithiol, lleoliadau a chymorth. Er

bod llawer o asiantaethau statudol wedi ceisio ymateb i'r heriau hyn, mae beirniaid yn awgrymu bod llawer o sefyllfaoedd o hyd lle mae llais a chyfrifoldeb wedi'u colli, gan wneud niwed tymor hir i blant a'u teuluoedd.

Mae gwledydd eraill yn sylweddoli bod y problemau sy'n wynebu llawer o deuluoedd yn rhai y mae angen i'r teulu, y teulu estynedig a'r gymuned leol ganfod y datrysiadau iddynt, ac y dylid blaenoriaethu'r cyfle i gyflawni hyn. Maent yn cydnabod y bydd llawer o'r plant hyn, wrth dyfu'n hŷn, yn dychwelyd i fyw gyda'u teulu gwreiddiol beth bynnag, neu'n ymgysylltu â hwy, ac felly maent yn derbyn bod angen eu cynorthwyo hwy a'u teuluoedd i gynnal cysylltiadau a chyfrifoldeb.

## Clywed llais y plentyn

**Rhoddir pwyslais mawr ar glywed 'llais y plentyn' mewn rhai gwledydd, ac mae'r gyfraith yn gorfodi hyn mewn rhai achosion (e.e. Sweden, Norwy). Hefyd, mae'r rhieni'n cyfrannu i raddau helaeth at wneud penderfyniadau yn gyffredinol. Yn Seland Newydd, ceir ffocws polisi mawr ar gynnwys teuluoedd biolegol mewn materion yn ymwneud â gofal, amddiffyn a throseddu a defnyddir llawer ar Gynadleddau Grŵp Teulu (a ddatblygwyd yn wreiddiol yn Seland Newydd pan gyflwynwyd Deddf Plant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd 1989) ym mhob un o'r tri maes (Connolly, 2004). Yn gyffredinol, disgwylir i deuluoedd barhau i ddarparu ar gyfer eu plant a cheisio canfod eu datrysiadau eu hunain yn gyntaf cyn ymwneud â'r system gofal o gwbl.**[4]

**Yn Norwy, bwrdeistrefi lleol sy'n gyfrifol am leoliadau gofal maeth a rhaid iddynt sicrhau bod rhywun yn ymweld â'r plentyn yn ei leoliad o leiaf bedair gwaith y flwyddyn er mwyn deall sefyllfa, anghenion a safbwyntiau'r plentyn. Yn ogystal â gweithiwr achos, mae gan y plentyn 'oruchwyliwr' sy'n gweithio'n annibynnol mewn modd tebyg i eiriolwr. Mae'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer darparwyr gofal hefyd yn pwysleisio sicrhau 'llais y plentyn'.**[5]

**Yn Sweden, gwneir ymdrechion i gynnwys y plentyn mewn ffyrdd sy'n briodol i'w oed, ac o 15 oed ymlaen mae'n rhaid i'r person ifanc gytuno cyn y gwneir unrhyw benderfyniad, oni bai bod gorchymyn llys wedi'i roi (Wisso a Johansson, 2018).**

[4] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Medi 2019.
[5] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Medi 2019.

**Yn Alberta (Canada), mae hefyd yn ofyniad gorfodol cynnwys rhieni a gwarcheidwaid y plentyn yn y broses asesu gychwynnol.** [6]

Mae cysylltiad agos rhwng y thema hon a'r thema gyntaf, ac rydym yn meddwl bod hwn hefyd yn faes addawol i'w archwilio ymhellach. Yma, y cwestiwn yw sut mae llais y plentyn yn *arwain* penderfyniadau a wneir am leoliadau, yn hytrach na chyfrannu atynt yn unig.

Eto, mae angen i ni fod yn ofalus am awgrymu nad yw'r thema hon yn rhywbeth sy'n bwysig i ymarferwyr a llunwyr polisïau yn y DU. Ceir llawer o enghreifftiau o ddatblygu ymarfer ledled Cymru, yn ogystal â pholisïau cenedlaethol megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n mynnu y rhoddir ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, byddai llawer o ymarferwyr yn dweud bod arfer gorau yn y DU yn ymwneud â lleddfu anawsterau o ran galluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael llais ystyrlon drwy gydol eu profiad o ofal. Mae'n ymddangos bod rhai o'r arferion yr ydym wedi clywed amdanynt mewn mannau eraill yn dechrau â phwyslais annatod cryfach ar lais – a chyfrifoldeb – y plentyn a'r teulu yn y dyfarniad parhaus am yr hyn sydd orau. Gwneir hyn drwy gyfrwng:

- Man cychwyn sy'n nodi y dylai teuluoedd gadw cyfrifoldeb am eu plant lle bynnag y bo'n bosibl.
- Tybiaeth mai prif rôl asiantaethau statudol yw hybu cyfathrebu da a rhannu cyfrifoldeb am rwydwaith y plentyn drwy gydol y profiad gofal.

Ar gyfer y thema hon, fel y lleill, rydym wedi ystyried sut gallai partneriaid yng Nghymru archwilio'r dull hwn ymhellach, a chynigir yr opsiynau yn adran derfynol 'Ffyrdd ymlaen' yr adroddiad.

## Thema 3: Y cydbwysedd rhwng darpariaethau gwladwriaethol a phreifat a darpariaethau'r trydydd sector

Mae'r drydedd thema'n ymwneud â phriod rinweddau gwahanol fathau o berchenogaeth a rheolaeth dros wasanaethau. Nid yw ein dadansoddiad yn seiliedig ar briod rinweddau gwasanaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol mewn perthynas â darparu gwasanaeth cyhoeddus; yn hytrach, mae'n ystyried sut mae gwahanol wledydd yn mynd ati i ateb y cwestiwn hwn, a beth maent yn ei wneud i gynyddu'r buddion a lleihau'r risgiau, beth bynnag yw'r cydbwysedd penodol rhwng gwasanaethau.

[6] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Awst 2019.

Mae gwahanol wledydd yn darparu ac yn llywodraethu'r gwahanol weithgareddau a nodwyd gennym yng nghwmpas yr adolygiad ar ddechrau'r adroddiad hwn mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

O ran asesu a chynllunio gofal, mae'n beth prin i'r wladwriaeth neu asiantaeth gwladwriaethol roi'r swyddogaethau hyn ar gontract allanol, ond ceir rhai enghreifftiau o ddarparu cyllideb i asiantaethau annibynnol i ddiwallu anghenion poblogaeth, gan gynnwys y swyddogaethau hyn.

## Awstralia

**Yn Queensland roedd yn ddiddorol nodi bod adran llesiant plant y dalaith yn cadw cyfrifoldeb am reoli achosion plant mewn gofal statudol gan ganiatáu i bartneriaid anllywodraethol (gan gynnwys y sector gwirfoddol) gael eu contractio i ddarparu'r cymorth a'r gwasanaethau gwaith achos eu hunain yn unol â chynlluniau achosion y cytunwyd arnynt. Yn y blynyddoedd diwethaf, darparwyd mwy o gyllid i'r symudiad hwn, gan ganiatáu i fwy o wasanaethau amddiffyn plant gael eu prynu gan y sector gwirfoddol (Llywodraeth Queensland, 2018).**

Mae'n ymddangos bod gan rai gwledydd sector bach iawn o ddarparwyr preifat, sydd yn bennaf yn cadw at ddarparu gofal preswyl arbenigol lle mae angen lleoliadau untro o bryd i'w gilydd. Yn yr enghreifftiau hyn, fel rheol bydd gofal maeth wedi'i drefnu a'i ddarparu gan gorff gwladwriaethol. Yn aml yn y gwledydd hyn, mae cyflogau gofalwyr maeth yn gymharol isel, gan ganolbwyntio ar lwfansau, ac ni ystyrir fel rheol bod gofal maeth yn dasg 'broffesiynol'.

## Seland Newydd

**Yn Seland Newydd, darperir tua 90% o'r gwasanaethau gan asiantaethau a gynhelir yn uniongyrchol gan y wladwriaeth, ac mae'n ofynnol i'r gweddill weithredu yn unol â'r un telerau a rheoliadau ag sy'n berthnasol i ddarpariaeth y wladwriaeth. Cyflwynwyd Safonau Gofal cenedlaethol newydd ym mis Gorffennaf 2019, a defnyddir fframwaith comisiynu safonol i gynorthwyo â gwaith comisiynu a chontractio lleol. Mae hyn hefyd yn cynorthwyo 'comisiynu' anffurfiol, sy'n cynnwys meithrin capasiti a gallu mewn cymunedau lleol. Ceir thema draddodiadol gref o 'allgaredd' yn system Seland**

**Newydd (adlewyrchir hyn yng ngwerth cymharol isel lwfansau gofal maeth, er enghraifft) a'u dymuniad yw cadw hyn yn un o werthoedd craidd y system.** [7]

Mae gan eraill sector maethu a phreswyl preifat llawer ehangach.

## Canada

**Yn Ontario, darperir gwasanaethau amddiffyn plant gan y Children's Aid Societies (CAS). Mae Gweinyddiaeth y Wlad yn darparu cyllid i'r CAS ac yn eu monitro. Maent hefyd yn datblygu polisi, ac yn trwyddedu preswylfeydd plant (cartrefi i grwpiau) a chartrefi maeth. Mae'r CAS yn gyfrifol am wasanaethau diogelu plant, gofalu am y plant sy'n dod i'w gofal, cwnsela a chefnogi teuluoedd, a lleoli plant i'w mabwysiadu. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i bob CAS gydymffurfio â'r Safonau Amddiffyn Plant yn Ontario.**

**Mae 49 CAS yn Ontario, gan gynnwys 11 cymdeithas frodorol. Yn nodweddiadol, bydd cartrefi preswyl i blant wedi'u trwyddedu gan y llywodraeth ond yn cael eu cynnal gan sefydliadau preifat a/neu fudiadau dielw. Mae'r Weinyddiaeth yn ariannu rhai gwasanaethau preswyl yn uniongyrchol, ac ariennir rhai'n anuniongyrchol gan asiantaethau lleoli megis CAS drwy gyfrwng contractau â gweithredwyr preifat (Gweinyddiaeth Plant, Cymuned a Materion Cymdeithasol Ontario, 2019).**

**Yn Alberta, ceir economi cymysg ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ofal. Er enghraifft, mae gofal gan berthynas yn 80% darpariaeth wladwriaethol a 20% asiantaeth; mae gofal maeth arall yn 60:40; mae lleoliadau therapiwtig neu driniaeth tymor byr oddeutu 50:50. Darperir yr holl ofal cartref grŵp gan y sector preifat/annibynnol. Mae darpariaeth fewnol yn amodol ar yr un broses drwyddedu a safonau eraill ag a ddefnyddir yn y sector anwladwriaethol.** [8]

Mewn gwledydd eraill, ceir trydydd sector neu sector mentrau cymdeithasol cryf iawn sy'n diwallu anghenion gwahanol blant a phobl ifanc.

## Yr Almaen

[7] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Medi 2019.
[8] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Awst 2019.

**Yn yr Almaen, mae'r *Jugendämter* (asiantaethau plant lleol y wladwriaeth) yn gallu darparu gwasanaethau eu hunain, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. Cânt weithio gyda mudiadau lles a ariennir gan y wladwriaeth ond a gynhelir gan y trydydd sector. Yn aml, gelwir y rhain yn *freie Träger*. Yn wir, dim ond pan nad oes darpariaeth gan y *freie Träger* ar gael y mae disgwyl i'r *Jugendämter* ddarparu gwasanaethau eu hunain. Ariennir y *freie Träger* gan grantiau gan y *Jugendämter* am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, ac fe'u trwyddedir ar lefel y wladwriaeth, gyda gofyniad i ddarparu gwasanaethau at safon broffesiynol a chydnabod hawliau Cyfansoddiad yr Almaen.**

**Wedi iddynt fodloni'r gofynion am o leiaf dair mlynedd, bydd gan unrhyw sefydliad (gan gynnwys grwpiau crefyddol a reolir gan gyfraith gyhoeddus yn ogystal â sefydliadau gwasanaethau lles ffederal) hawl i gael ei adnabod fel *freie Träger* (Witte et al, 2016).**

Mae gwladwriaethau eraill yn defnyddio cydbwysedd llawer tebycach i'r un yng Nghymru.

## Iwerddon a Norwy

**Yn Iwerddon, daeth Tusla yn endid cyfreithiol annibynnol yn 2014. Mae'r gwasanaeth cenedlaethol hwn yn uno cyrff a oedd yn bodoli eisoes, gan gynnwys Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr HSE, yr Asiantaeth Cymorth i Deuluoedd a'r Bwrdd Lles Addysgol Cenedlaethol. Gall ddarparu, prynu neu drwyddedu gwasanaethau. Er enghraifft, darperir gwasanaethau maeth yn uniongyrchol gan Tusla a hefyd gan asiantaethau gofal maeth gwirfoddol a phreifat (Tusla, dim dyddiad). Maent yn darparu'r amrywiaeth lawn o fathau o ofal maeth, gan gynnwys lleoliadau tymor byr a hir, lleoliadau argyfwng, lleoliadau rhiant a phlentyn, byw â chymorth, a chymorth pontio rhwng gofal preswyl a maeth a gofal maeth yn unig. Darperir gofal preswyl hefyd gan gymysgedd o gartrefi a gynhelir gan y wladwriaeth (Tusla) a chyrff gwirfoddol/preifat (Cymdeithas Gofal Maeth Iwerddon, 2013).**

**Yn Norwy, gall bwrdeistref gynnal gwasanaethau gofal maeth yn uniongyrchol neu drwy gyfrwng corff preifat neu ddielw. Cartrefi maeth bwrdeistrefol yw tua 90% o'r holl gartrefi maeth. Maent yn gyfrifol am recriwtio gofalwyr maeth, darparu hyfforddiant ac arweiniad, a dyrannu lleoliadau, a'r fwrdeistref yn cadw'r atebolrwydd o ran cymorth dilynol a goruchwyliaeth. Caiff gofalwyr maeth eu talu, ac mae ganddynt gytundeb â'r fwrdeistref â chyfrifoldeb (Llywodraeth Norwy, 2019).**

Yn olaf, mae trefniadau paru a brocera yn amrywio o ran ehangder a chymhlethdod – yn aml yn gysylltiedig â faint a ddarperir gan y sector annibynnol. Mae gan lawer o wledydd, ond nid pob un, ryw fath o wasanaeth brocera rhanbarthol neu genedlaethol â'r bwriad o alluogi prynwyr y wladwriaeth i gael gwell gwybodaeth a chontractau mwy dibynadwy drwy ddarparu pethau megis cofrestri darparwyr, trefniadau sicrhau ansawdd, a chytundebau cyn lleoli.

Mae'n werth nodi nad yw'n ymddangos bod y cydbwysedd rhwng elfennau'r ddarpariaeth yn effeithio o gwbl ar y gallu i 'baru' anghenion y plentyn unigol â chymwyseddau a galluoedd darparwyr gofal (gan gynnwys gofalwyr maeth). Er bod pob gwlad yn ymdrechu i ryw raddau i baru, y realiti yw bod bron bob un yn dweud bod capasiti'r system a nifer y gofalwyr sydd ar gael yn cael effaith anffafriol ar hyn, gan arwain at fethu paru'n optimaidd ar adegau. Yr un eithriad posibl yw os oes gan y sector annibynnol/preifat fwy o gapasiti i ddarparu gofal arbenigol iawn mewn lleoliadau preswyl.

Nid ydym wedi ceisio darganfod, nac wedi canfod, unrhyw dystiolaeth na phrofiad clir bod unrhyw un dull yn well nag eraill. Mae'n amlwg nad oes unrhyw un dull yn iawn i bob gwlad ac, i raddau helaeth, mae angen cydnabod bod gan bob gwlad ei threfniadau llywodraethu penodol ei hun. Roedd yn amlwg bod y bobl a siaradodd â ni mewn gwahanol wledydd yn deall hyn: awgrymodd y rhan fwyaf, er bod gwahanol drefniadau'n golygu bod angen gwahanol ffyrdd o lywodraethu a rheoli'r farchnad, bod y gwahaniaethau hyn yn gymharol ddibwys o gymharu â materion ymarferol megis pris, tâl staff, a pholisïau cenedlaethol ynglŷn ag adnoddau i gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Serch hynny, efallai y dylid archwilio gwersi pwysig am y cydbwysedd a ddymunir rhwng perchenogaeth a rheolaeth y wladwriaeth, y sector preifat a'r trydydd sector drwy gymharu â gwledydd eraill. Byddai angen bod yn ofalus ynglŷn â phriodoli buddion penodol o ran canlyniadau i blant a theuluoedd i wahanol drefniadau rheoli perchenogaeth yn y gwahanol wledydd hyn.

Mae'r adran olaf sy'n edrych ar 'Ffyrdd ymlaen' yn awgrymu ffyrdd o wneud y gwaith archwilio hwn, a fyddai'n cynnig cyfle i lunwyr polisïau a chomisiynwyr i archwilio'r cwestiynau hyn heb or-symleiddio tybiaethau am y cydbwysedd.

## Thema 4: Y mathau o wasanaethau lleoli sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc

Mae'r bedwaredd thema'n cysylltu amrywiaeth o wahanol ddulliau o lunio a darparu gwasanaethau â'r bwriad o gynorthwyo lleoliadau plant a phobl ifanc. Ceir llawer o wahanol fathau o wasanaethau mewn gwahanol wledydd a allai gynnig syniadau i gomisiynwyr yng Nghymru.

Fel y nodwyd uchod, yn gyffredinol bu mwy o symudiad yn ddiweddar tuag at ddewis gofal maeth mewn amgylchedd teuluol yn hytrach na threfniadau preswyl. Bu mwy o duedd hefyd ar draws y gwledydd i ddewis gofal 'gan berthynas' ar gyfer gofal maeth (yn aml diffinnir 'perthynas' yn eang fel rhywun yr oedd y plentyn neu'r person ifanc yn ei adnabod eisoes, gan gynnwys cymdogion a ffrindiau, yn ogystal â pherthnasau). Yn y gwledydd hynny lle ceir poblogaeth frodorol (h.y. Canada, Awstralia a Seland Newydd), fel rheol bydd polisïau (ac adrannau) penodol i atgyfnerthu'r dull gofal gan berthynas ymhellach eto. Er enghraifft, yn Seland Newydd caiff 'perthyn' ei ymestyn i'r 'llwyth' neu'r 'gymuned' ehangach y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn gysylltiedig â hi, hyd yn oed os yw hyn gryn bellter oddi wrth gartref presennol y teulu.

Ceir amrywiadau hefyd rhwng mathau o ofalwyr maeth a'u hamodau, ac weithiau ceir gwahaniaeth sylfaenol o ran i ba raddau y mae disgwyl iddynt weithio gyda theuluoedd biolegol. Mewn llawer o fannau, mae nifer y gofalwyr maeth yn is ac maent yn aml yn cael eu talu llai nag yng Nghymru, gan gynnwys rolau gwirfoddol ar adegau. Nid yw'n glir a yw hyn oherwydd bod y galw'n is yn y gwledydd hyn, ynteu oherwydd bod diwylliant teuluol yn wahanol iawn.

Mae graddau'r hyfforddiant a'r monitro sydd ar gael i ofalwyr maeth yn amrywio, ac er bod tuedd gyffredinol ym mhob gwlad i asesu eu haddasrwydd, fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, gall pwyslais y meini prawf amrywio.

## Hyfforddiant i ofalwyr maeth

**Mae rhai gwledydd (e.e. Norwy, Seland Newydd) yn darparu hyfforddiant safonedig (mewn rhai achosion ar lefel genedlaethol) i'w holl ofalwyr maeth ar lefel sylfaenol, gan gynnig 'modiwlau' ychwanegol i bobl sy'n gallu darparu ar gyfer plant ag angen pecynnau gofal mwy cymhleth, ac sy'n fodlon gwneud hynny.**

**Mewn llawer o wledydd (e.e. Sweden, Norwy), mae angen i'r teulu ddarparu cymorth yn gyntaf i geisio atal y plentyn rhag gorfod derbyn gofal tymor hir (heblaw mewn argyfyngau). Yn Norwy er enghraifft, dim ond 2-3% o blant sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Lles Plant sy'n mynd ymlaen i dderbyn 'gofal y tu allan i'r cartref' – h.y. mae bron bawb sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau hyn yn osgoi'r canlyniad hwnnw, sy'n adlewyrchu'r pwyslais a roddir ar ymyrryd yn gynnar ac atal.** [9] **Mae hyn wedi arwain at feirniadaeth yn Norwy bod y wladwriaeth yn ymyrryd â gormod o deuluoedd.**

[9] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Medi 2019.

**Yn Seland Newydd, mae newidiadau sylweddol ac eang i'r system yn ddiweddar yn rhoi pwyslais trwm ar bob asiantaeth i gefnogi'r teulu a'r plentyn o fewn rhwydweithiau presennol teulu a ffrindiau, sy'n golygu bod y trothwy o ran dechrau derbyn gofal yn gymharol uchel.** [10]

Yn yr enghreifftiau uchod i gyd, ac fel y nodwyd yn Thema 1 uchod, hyd yn oed ar ôl dechrau derbyn gofal, mae'r pwyslais yn dal i fod yn gryf ar geisio ailuno fel y prif nod, a defnyddir mwy ar y dulliau cymorth i deuluoedd hyn i helpu i ddychwelyd plant at eu teuluoedd biolegol.

Er y ceir enghreifftiau o ddefnyddio cymorth ychwanegol mewn lleoliadau i'w hatal rhag chwalu (er enghraifft, yn Lloegr ceir enghreifftiau o ddulliau 'Tîm o gwmpas y Lleoliad' – mae 'Model Oregon' o ofal cofleidiol dwys yn enghraifft benodol) gall hyn fod yn eithriad a drefnir ar gyfer plant penodol yn hytrach na'i fod yn digwydd i'r holl blant. Gallai'r nod hefyd fod yn fwy cysylltiedig ag atal chwalu lleoliad na cheisio ailuno.

Ceir amrywiaeth sylweddol hefyd o ran i ba raddau mae gofal maeth wedi'i 'broffesiynoli' a'r lefelau tâl.

## 'Proffesiynoli' gofal maeth

**Yn yr Almaen, mae tua hanner y plant a'r bobl ifanc sydd mewn gofal y tu allan i'r cartref (neu *Fremdunterbringung*) yn byw mewn gofal preswyl, a'r hanner arall mewn gofal maeth (Schröer et al, 2016). Yn draddodiadol, gwaith gwirfoddol oedd bod yn ofalwr maeth, ac roedd teuluoedd maeth yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r swyddfa lles ieuenctid. Yn ddiweddar, fodd bynnag, mae gwahaniaeth wedi ymddangos rhwng gofalwyr maeth 'traddodiadol' a 'phroffesiynol' (*Erzihungstellen*). Yn aml, caiff pobl ifanc ag anghenion sy'n golygu bod angen ymyriadau cymhleth eu lleoli gyda theuluoedd maeth 'proffesiynol', lle mae gan o leiaf un rhiant maeth gymhwyster fel athro/athrawes, 'dysgawdwr cymdeithasol' neu weithiwr cymdeithasol (Harder et al, 2013).**

**Yn Norwy, caiff gofalwyr maeth mewn argyfwng eu hyfforddi (a'u contractio) i ofalu am blant a phobl ifanc mewn sefyllfaoedd acíwt, a hyfforddir *Familiehjem* (cartrefi teulu) i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu fel 'dewis arall yn lle lleoli mewn sefydliadau'; mae'n ofynnol i o leiaf un o'r rhieni fod yn 'gweithio'n llawn-amser yn y cartref'. Mae'n ofynnol iddynt hefyd**

[10] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Medi 2019.

**ymrwymo i gontract pum mlynedd ag awdurdod lles plant y llywodraeth er mwyn darparu sicrwydd o'u gallu (Llywodraeth Norwy, 2019).**

Mae gofal preswyl hefyd yn amrywio rhwng gwledydd, o ran cyfran y gofal hwn a ddefnyddir o'i gymharu â gofal maeth, a hefyd o ran sut y caiff ei drefnu, ei ddarparu a'i ariannu.

## Yr Almaen

**Mae gan yr Almaen lefel gymharol uchel o ofal drwy ddarpariaeth breswyl o gymharu â gwledydd eraill. Mae'r amrywiaeth o wasanaethau'n cynnwys 'tai ymgynnull' sef tŷ neu fflat sy'n aml yn rhan o gartref mwy; unedau sy'n darparu therapi dwys yn seiliedig ar ddulliau megis 'addysg iachaol'; gofal preswyl mewn trefniadau tebyg i deulu; pentrefi i blant; a theuluoedd maeth proffesiynol (gall rhai o'r rhain ddarparu addysg iachaol gan ddibynnu ar anghenion y plentyn). Gellir darparu 'gofal preswyl unigol â chymorth' i bobl ifanc lle bydd cymorth hyblyg ar gael ar sail eu hanghenion unigol neu mewn 'grwpiau byw'n annibynnol', lle byddant yn byw mewn llety rhent mewn grwpiau bach, gyda chymorth dysgawdwyr cymdeithasol (Schröer et al, 2016).**

Ystyrir mabwysiadu fel opsiwn i wahanol gyfrannau o blant a phobl ifanc mewn gwahanol wledydd[11] ac yn un wlad o leiaf (Seland Newydd) anaml y bydd yn ymddangos fel modd o geisio sefydlogrwydd yn y system gofal; defnyddir math o 'warcheidiaeth' (unigolion a benodir gan y llys i ofalu am blentyn) yn lle hynny.

At ei gilydd, rydym wedi canfod amrywiaeth eang o wahanol fathau o wasanaethau maeth a phreswyl y gallai fod yn werth eu harchwilio yng Nghymru. Mae'r thema allweddol yn y maes hwn, fodd bynnag, yn ymwneud ag i ba raddau y gellir defnyddio amrywiaeth o wahanol fathau o ddarpariaeth mewn modd hyblyg i ymateb i anghenion y plentyn neu'r person ifanc unigol, a'r gwaith gyda'u teulu. Mae hyn yn gysylltiedig â phwysigrwydd sylfaenol defnyddio dull 'mewn perthynas' i weithio gyda phlant neu bobl ifanc, yn hytrach na dim ond eu 'prosesu' drwy system benodol. Mae hyn yn golygu bod angen rhoi cymorth dwys ac ymatebol i blant a'u teuluoedd biolegol fel elfen allweddol.

[11] Serch hynny, yn rhannol, mae'r gwahaniaethau hyn rhwng cyfraddau mabwysiadu'n adlewyrchu gwahanol ddibenion gofal a sut mae hyn yn effeithio ar y ffordd mae gweithredwyr y wladwriaeth yn rheoli gwahanol amgylchiadau a grwpiau oed.

## Thema 5: Dulliau comisiynu strategol, caffael, llunio'r farchnad, cystadlu rhwng darparwyr, a chydweithredu

Mae gan bob gwlad drefniadau i reoli'r ffordd y mae'r wladwriaeth yn caffael gwasanaethau, er bod y rhain yn amrywio o ran eu ffurf, yn ogystal ag i ba raddau y'u defnyddir i bennu safonau a meini prawf y bydd rhaid i ddarparwyr lynu atynt. Byddem yn disgwyl i hyn ddibynnu'n sylweddol ar i ba raddau y gosodir gwasanaethau ar gontractau allanol, sy'n creu'r angen i ddefnyddio'r dulliau hyn.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr amrywiadau hyn mae comisiynu strategol, cynllunio a llunio'r farchnad yn her i bob gwlad. Mae hyn weithiau oherwydd bod y galw'n fwy na'r cyflenwad, sy'n golygu bod gan ddarparwyr 'y llaw drechaf' wrth negodi; bod anghenion plant a phobl ifanc yn newid ac yn golygu bod angen mathau newydd neu arloesol o ddarpariaethau sy'n gallu bod yn brin; neu'n adlewyrchu cyfnod datblygiad y dull hwn a'r pwyslais a roddir iddo yng nghyd-destun diwylliannol y wlad honno.

Ceir tuedd oddi wrth drefniadau caffael sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau am arian yn y tymor byr yn unig, a thuag at sicrhau'r canlyniadau tymor hir cywir. Fodd bynnag, mae datblygiad systemau i fesur canlyniadau i blant yn hytrach na mesur allbynnau systemau a phrosesau yn amrywio, ac yn gymharol wael mewn rhai gwledydd. Gellid ystyried bod gwledydd y DU yn arloeswyr o ran ymchwil i ganlyniadau plant.

Mae'r holl wledydd yn casglu data i wahanol raddau, ond mae'r defnydd a wneir o'r rhain i gynllunio ymlaen llaw'n amrywio yn rhannol oherwydd dyfnder y data, ac yn rhannol oherwydd yr adnoddau (a'r pwysigrwydd) a roddir i'r maes gwaith hwn. Lle bo hynny'n digwydd, y bwriad yw lleihau'r angen a'r galw yn y dyfodol, er bod digwyddiadau wrth gwrs yn gallu mynd yn drech na hyn mewn realiti.

Mae gan lawer o wledydd ddulliau i helpu eu hawdurdodau lleol i gydweithio mewn grwpiau (neu ar lefel genedlaethol) i gynyddu eu pŵer prynu a'u dylanwad dros y farchnad.

### Dulliau o gynyddu pŵer prynu a dylanwad dros y farchnad

**Yng Nghanada, gellir 'cofrestru' gofalwyr maeth yn uniongyrchol ag adran plant y llywodraeth daleithiol neu ag asiantaeth faethu sy'n gweithio i'r adran honno. Yn Alberta er enghraifft, mae'r gofal i gyd yn drwyddedig, gan gynnwys y ddarpariaeth fewnol sy'n ddarostyngedig i'r un gofynion â darparwyr allanol, ac eithrio gofal gan berthynas, lle bydd gweithwyr cymdeithasol yn asesu addasrwydd. Mae pob lleoliad**

**allanol ar gontract mewn rhyw ffordd. Teimlir bod perthnasoedd tymor hir da rhwng asiantaethau yn bwysig, ac yn seiliedig ar ddeialog a diddordeb gan y ddwy ochr a cheisio osgoi model cyflenwad a galw cwbl economaidd, defnyddio modelau ymarfer a thendro i wella gwasanaethau a chyflawni gwell canlyniadau.**[12]

**Yn Nenmarc, yn debyg iawn i'r DU, y Senedd sy'n amlinellu'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoliadau, ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gymeradwyo darparwyr, sicrhau bod digon o leoliadau ar gael, ariannu, a rheoli lleoliadau (Jackson a Cameron, 2011).**

**Yn Sweden, mae'r bwrdeistrefi'n ffurfio grwpiau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol i ffurfio cymdeithas o awdurdodau lleol sy'n datblygu 'contractau fframwaith' i'w cynorthwyo i ymgysylltu â'r sector anwladwriaethol ar draws yr amrywiaeth eang o fathau o ddarpariaethau ac anghenion, er mwyn lleihau'r angen i brynu unrhyw beth 'oddi ar gontract'.**[13]

**Yn Lloegr, defnyddir Datganiadau Sefyllfa'r Farchnad i helpu i ymgysylltu â'r farchnad a rhoi gwybod iddynt beth sydd ei angen ar awdurdodau lleol. Hefyd, mae defnyddio 'consortia' o awdurdodau lleol yn helpu i gynyddu eu dylanwad dros ddarparwyr (gan gynnwys o ran pris), ond dim ond os yw aelodau'r consortia wir yn cydweithio ac yn aros gyda'i gilydd. Mae defnyddio 'Lotiau' mewn trefniadau o'r fath yn gallu helpu i wella amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael ar draws gwahanol feysydd o ran anghenion a chymhlethdod.**[14]

**Yn Seland Newydd, mae'n rhaid i gontractau a dyfarniadau cyllid gydymffurfio â 'Chod Ymarfer Ariannu' y llywodraeth sy'n amlinellu'r arfer gorau (Gweinyddiaeth Plant Oranga Tamariki, dim dyddiad, a). Mae'n ofynnol i ddarparwyr hefyd gydymffurfio â Chytundeb Canlyniadau sy'n pennu bod rhaid darparu gwasanaethau yn unol â manylebau'r Weinyddiaeth (Gweinyddiaeth Plant Oranga Tamariki, dim dyddiad, b). Hefyd, defnyddiwyd llawer o 'Atebolrwydd ar sail Canlyniadau' i asesu effeithiolrwydd gwasanaethau (Llywodraeth Seland Newydd, dim dyddiad). Gall gofalwyr maeth gael eu recriwtio a'u hyfforddi'n uniongyrchol gan y Weinyddiaeth, neu gan asiantaethau maethu cymeradwy – rhai'n gweithredu'n genedlaethol ac eraill yn fwy lleol. Ariennir rhai o'r rhain hefyd i ddarparu hyfforddiant (cychwynnol neu barhaus) a chymorth i ofalwyr maeth (Fostering Kids New Zealand, dim dyddiad).**

**Hefyd yn Seland Newydd, mae'r Weinyddiaeth Plant gymharol newydd wedi cynhyrchu safonau gofal cenedlaethol yn ddiweddar. Mae'r Weinyddiaeth yn contractio gyda**

[12] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Awst 2019.
[13] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Awst 2019.
[14] Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfweliad dros y ffôn â gweithiwr proffesiynol, Awst 2019.

**darparwyr gofal trydydd sector drwy gyfrwng porth caffael ar-lein – i ariannu gwasanaethau sy'n 'cydymffurfio â'n blaenoriaethau'. Mae ar ddarparwyr angen achrediad gan y Weinyddiaeth Datblygu Cymdeithasol i nodi bod ganddynt y gallu a'r capasiti i ddarparu gwasanaethau o'r safon ofynnol yn barhaus (Gweinyddiaeth Plant Oranga Tamariki, dim dyddiad, a).**

**Yn yr Almaen, mae'n ofyniad cyfreithiol i'r wladwriaeth gontractio'r sector annibynnol i ddarparu gwasanaethau oni bai bod rheswm cryf pam nad yw hyn yn briodol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y wladwriaeth yn contractio amrywiaeth eang o asiantaethau bach preifat a thrydydd sector i ddarparu gwasanaeth i boblogaeth neu leoliad i unigolyn ag angen pecyn gofal cymhleth. Rheolir hyn drwy gyfrwng cyfres 'drionglog' o gytundebau rhwng y wladwriaeth, y teulu a'r darparwr (Witte et al, 2016).**

---

Mae hyn yn dangos bod amrywiaeth o ddulliau ar gael ar gyfer comisiynu strategol a chaffael, sy'n aml yn adlewyrchu'r cydbwysedd o ddarparwyr gwasanaethau 'mewnol', preifat, a thrydydd sector mewn gwahanol wledydd, yn ogystal â chefndir deddfwriaethol, hanes, a diwylliant y wlad.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, cydnabyddir bod angen cydweithio – comisiynwyr yn cydweithio â'i gilydd i ymgysylltu â'r sector annibynnol/preifat, neu gomisiynwyr yn cydweithio â'r partneriaid sy'n ddarparwyr er mwyn gwella gwasanaethau a chyflawni gwell canlyniadau i blant.

# Ffyrdd ymlaen

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau adolygiad eang. Ei nod oedd:

- Ystyried sut mae'r dulliau mewn gwahanol wledydd yn amrywio.
- Meddwl am y ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y dulliau hyn.
- Ystyried a oes gweithgareddau, gwasanaethau a threfniadau yn unrhyw le arall y gallai fod yn werth eu harchwilio ymhellach, ac a oes agweddau ar system Cymru y dylid gwneud mwy i'w harchwilio neu eu profi.

Rydym wedi bod yn ofalus drwy gydol yr adroddiad i bwysleisio natur amodol y wybodaeth yr ydym wedi'i datgelu. Ni ellir disgrifio unrhyw un wlad, rhanbarth na gwasanaeth yn syml fel 'llwyddiannus' ym myd cymhleth comisiynu lleoliadau i blant yng ngofal y wladwriaeth. Yn lle hynny, rydym wedi ceisio archwilio'r dulliau a'r arferion a ddefnyddir mewn gwahanol wledydd gyda golwg ar ddeall beth allai fod yn symbylol neu'n ddefnyddiol i bobl yng Nghymru – yn benodol, drwy nodi gwledydd y tu allan i'r DU a allai fod yn llai cyfarwydd i ddarllenwyr yng Nghymru.

Rydym yn awgrymu y dylai unrhyw waith dilynol fod yn seiliedig ar ddadansoddiad gofalus a manwl o batrymau presennol y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael ac o'r gwahanol anghenion a'r gwahanol blant a fodlonir gan ofal yng Nghymru – ac y mae angen eu bodloni. I ategu hyn, byddem yn awgrymu symud ymlaen o'r adolygiad cychwynnol hwn i ddadansoddiad cymharol manylach o arferion mewn mannau eraill o gymharu â Chymru, yn unol â phob un o'r pum thema.

## Thema 1: Ailuno/sefydlogrwydd

Mae'n ymddangos ei bod yn werth archwilio'r maes polisi ac ymarfer hwn ymhellach, yn enwedig gyda golwg ar brofi'r dystiolaeth newydd ynglŷn ag effaith a chanlyniadau mewn gwledydd lle archwilir dull mwy systematig o annog ailuno. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn awgrymu y gallai'r gweithgareddau canlynol fod yn werth chweil:

- Dadansoddi data cymharol rhwng Cymru a'r gwledydd hyn, yn enwedig yn nhermau'r niferoedd sy'n mynd i mewn ac allan o ofal ac mewn gofal dros amser – gan gydnabod yr anawsterau i sicrhau data cymharol cwbl ystyrlon yn y maes hwn.
- Edrych yn fanylach ar enghreifftiau o wasanaethau ac arferion ailuno yn Awstralia, Seland Newydd a Denmarc, gan gynnwys yn benodol sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda theuluoedd biolegol, a dadansoddi canfyddiadau gweithwyr a theuluoedd am y canlyniadau a gyflawnir o arfer gorau yn y maes hwn.

- Dadansoddi'r gwahaniaethau allweddol o ran y fframweithiau cyfreithiol a'r egwyddorion sy'n tanategu arferion ymarfer barnwrol, gofal cymdeithasol ac iechyd yn genedlaethol ac yn lleol rhwng Cymru a'r gwledydd hyn.

## Thema 2: Llais y plentyn a'r teulu

Mae perthynas agos rhwng y thema hon a'r thema gyntaf, ac mae'n ymddangos bod rhai gwahaniaethau diddorol a phwysig o ran pwyslais ar bolisi ac ymarfer rhwng Cymru a gwledydd eraill. Rydym yn awgrymu y gallai fod yn werth gwneud y canlynol:

- Dadansoddi, yn fanwl, enghreifftiau o arfer gorau wrth ymgysylltu'n ystyrlon â theuluoedd a phlant i sicrhau lleoliadau a rheoli risgiau, a sut mae'r rhain yn cymharu â'r arferion arferol yng Nghymru.
- Cymharu canlyniadau Cymru â'r enghreifftiau hyn o arfer gorau, gan gynnwys i ba raddau y gall llais a rheolaeth cryfach arwain at well canlyniadau tymor hir a gwell profiadau gofal i blant a phobl ifanc.
- Cymharu'r adnoddau a'r gweithgareddau proffesiynol yn y safleoedd arfer gorau hyn drwy gynnal adolygiadau achosion manwl, a sut mae'r arferion yn wahanol yng Nghymru.

## Thema 3: Cydbwyso darpariaethau gwladwriaethol a phreifat a darpariaethau'r trydydd sector

Byddai awgrymu mai prif ddiben unrhyw system yw cynnal rhyw broffil penodol o ran llywodraethu neu berchenogaeth yn eithaf tebyg i roi'r cart o flaen y ceffyl – y prif ddiben, wrth gwrs, yw diwallu anghenion a helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc. Dylai'r ffurf ddilyn y swyddogaeth. Rydym hefyd yn gwybod ei bod yn anodd gwahanu dadansoddiad o fodel perchenogaeth penodol a'r cyd-destun economaidd a gwleidyddol ehangach lle mae'n gweithredu. Ein cwestiwn allweddol, felly, yn y thema hon yw 'Pa drefniadau yr hoffai arweinwyr yng Nghymru eu harchwilio ymhellach, a sut gellir eu gwerthuso?'

Yn benodol, bydd angen i hyn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng darpariaethau gwladwriaethol a phreifat a darpariaethau'r trydydd sector. Fel man cychwyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynorthwyo i ddatblygu mentrau cymdeithasol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, gallai fod yn werth archwilio'r gwledydd lle defnyddir y model hwn ac ystyried sut y maent wedi llwyddo i annog ansawdd da a chyflenwad digonol wrth ei ddefnyddio. Er enghraifft, os dymunir economi cymysg o fentrau cymdeithasol llai eu maint, byddai'n werth archwilio modelau'r Almaen, Norwy a Seland Newydd ymhellach.

## Thema 4: Gwasanaethau lleoli

Rydym wedi canfod nifer o ddulliau diddorol o lunio gwasanaethau a sicrhau ansawdd yn yr adroddiad hwn a gallai fod yn werth archwilio rhai ohonynt yn bellach ac yn fanylach drwy gyfrwng gweithgareddau megis:

- Archwilio'r amrywiaeth o opsiynau lleoli sydd ar gael i awdurdod lleol yng Nghymru a chymharu'r rhain â'r amrywiaeth sydd ar gael mewn rhai gwledydd eraill.
- Adolygu detholiad o achosion rhwng Cymru a rhai gwledydd penodol i archwilio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chanfod angen, archwilio opsiynau i ddiwallu'r angen, a chwblhau a monitro lleoliadau.
- Adolygu detholiad o achosion rhwng Cymru a rhai gwledydd penodol i ystyried yr amrywiaeth o opsiynau lleoli a oedd ar gael ac i ba raddau y gallai'r lleoliadau ymateb i anghenion y plentyn neu'r teulu.

Dyma rai ffactorau allweddol i'w hystyried mewn unrhyw ddadansoddiad manwl: cost ac amrywiaeth y ddarpariaeth; faint o ddewis sydd ar gael; hyblygrwydd o ran ymateb i anghenion; sut i baru â lleoliadau ar gyfer y plant ag angen y pecynnau gofal mwyaf cymhleth; sut y cynhelir perthnasoedd cadarnhaol rhwng y plentyn a gofalwyr/gweithwyr cymdeithasol; a sut y clywir llais y plentyn wrth wneud penderfyniadau.

## Thema 5: Comisiynu strategol, caffael, a chystadleuaeth

Yn olaf, rydym wedi canfod arferion mewn gwledydd eraill y gallai fod yn werth eu harchwilio ymhellach a'u cymharu'n fanylach ag arferion yng Nghymru. Dyma rai ffyrdd y gellid gwneud hyn:

- Cymharu'r arferion a'r mecanweithiau a ddefnyddir gan gomisiynwyr gwasanaethau yng Nghymru ac mewn rhai gwledydd eraill penodol â'r cydbwysedd gwasanaethau y gallai Cymru ei ddymuno. Er enghraifft, os yw hyn i estyn amrywiaeth y mentrau cymdeithasol mewn economi cymysg, byddai'n werth archwilio Sweden a'r Almaen yn fanylach. Gellid gwneud hyn drwy gynnal dadansoddiad cymharol manwl o'r penderfyniadau a wneir a sut y rheolir lleoliadau ar gyfer detholiad o blant a phobl ifanc.
- Adolygu costau a ffioedd cymharol lleoliadau yng Nghymru o'u cymharu â gwledydd eraill ar gyfer maethu 'syml', maethu cymhleth, a gwahanol fathau o ddarpariaethau preswyl.
- Cymharu capasiti'r farchnad, dewisiadau a dulliau rheoli/hwyluso'r farchnad mewn gwahanol wledydd â'r sefyllfa yng Nghymru.

# Cyfeiriadau

Connolly, M. (2004). **A Perspective on the Origins of Family Group Conferencing.** Cyrchwyd o: **https://www.researchgate.net/publication/238072451_A_Perspective_on_the_Origins_of_Family_Group_Conferencing**.

Ezell, M., Spath, R., Zeira, A., a Canali, C. (2011). **An international classification system for child welfare programs.** Children and Youth Services Review 33(10): 1847-1854. Cyrchwyd o: **https://www.researchgate.net/publication/227413891_An_international_classification_system_for_child_welfare_programs.**

Fostering Kids New Zealand. (dim dyddiad). **Fostering Kids.** Cyrchwyd o: **http://fosteringkids.org.nz.**

Harder, A., Zeller, M., López, M. a Koengeter, K (2013). **Different sizes, similar challenges: Out of home care for youth in Germany and the Netherlands.** Psychosocial Intervention (22)3: 203-213. Cyrchwyd o: **https://www.researchgate.net/publication/266389547_Different_sizes_similar_challenges_Out-of-home_care_for_youth_in_Germany_and_the_Netherlands**.

Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2017). **Leading Integrated and Collaborative Commissioning: A Practice Guide.** Cyrchwyd o: **https://ipc.brookes.ac.uk/publications/pdf/Leading_Integrated_%26_Collaborative_Commissioning.pdf.**

Cymdeithas Gofal Maeth Iwerddon. (2013). **Foster Care: An Information Booklet on Foster Care in Ireland.** Cyrchwyd o: **http://www.ifca.ie/files/1014/2653/7805/IFCA_Info_Booklet.pdf.**

Jackson, S., a Cameron, C. (2011). **Adroddiad terfynol y prosiect YiPPEE WP12: Young people from a public care background: pathways to further and higher education in five European countries.** Cyrchwyd o: **https://bettercarenetwork.org/sites/default/files/attachments/Final%20Report%20of%20the%20YiPEE%20Project.pdf.**

Llywodraeth Seland Newydd. (dim dyddiad). **How to measure outcomes and outputs.** Cyrchwyd o: **https://www.procurement.govt.nz/procurement/specialised-procurement/social-services-procurement/developing-a-social-services-procurement-plan/how-to-measure-outcomes-and-outputs.**

Llywodraeth Norwy. (2019). **Foster Home and the foster home agreement.** Cyrchwyd o: **https://www.regjeringen.no/en/topics/families-and-children/child-welfare/fosterhjem-og-fosterhjemsavtalen/id630511.**

Gweinyddiaeth Plant, Cymuned a Materion Cymdeithasol Ontario (2019). **About Ontario's children aid societies.** Cyrchwyd o:

**http://www.children.gov.on.ca/htdocs/English/professionals/childwelfare/societies/index.aspx.**

Gweinyddiaeth Plant Oranga Tamariki. (dim dyddiad, a). **Funding.** Cyrchwyd o: **https://www.orangatamariki.govt.nz/working-with-children/information-for-providers.**

Gweinyddiaeth Plant Oranga Tamariki. (dim dyddiad, b). **Service Specifications/Service Guidelines.** Cyrchwyd o: **https://www.orangatamariki.govt.nz/working-with-children/information-for-providers/service-guidelines.**

Llywodraeth Queensland (2018). **Department of Child Safety, Youth and Women: Child Protection (Placement Services) Investment Specification**. Cyrchwyd o: **https://www.csyw.qld.gov.au/resources/dcsyw/about-us/funding-grants/specifications/investment-spec-cp-placements.pdf.**

Schröer, W., Thomas,S., Ehlke,C., Mangold, K., ac Oehme, A. (2016). **National Report: An effective response to care leavers' professional integration.** Cyrchwyd o: **http://www.abeona-project.com/wp-content/uploads/2016/07/National-report-Germany.pdf.**

Smits, J. (2019). **Denmark wants to speed up forced adoption process to take kids from birth parents.** Lifesite News. Cyrchwyd o: **https://www.lifesitenews.com/news/denmark-wants-to-speed-up-forced-adoption-process-to-take-kids-from-birth-parents.**

Asiantaeth Plant a Theuluoedd Tusla. (dim dyddiad). **About Us.** Cyrchwyd o: **https://www.tusla.ie/about.**

Ubbesun, M.B., Gilbert, R., a Thoburn, J. (2015) **Cumulative incidence of entry into out-of-home care: Changes over time in Denmark and England.** Child Abuse & Neglect (42)2015: 63-71. **https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0145213414003342.**

Witte, W., Miehlbradt, L., van Santen, E., a Kindler, H. (2016). **Briefing on the German Child Protection System.** Hestia. Cyrchwyd o: **https://welfarestatefutures.files.wordpress.com/2016/11/hestia-whitepaper-german-child-protection-system-aug2016.pdf.**

Wisso, T. a Johansson, H. (2018) **Transferring custody from birth parents to foster parents – an ambiguous matter**. Journal of Social Welfare and Family Law. (40)3. Cyrchwyd o: **https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/09649069.2018.1493653.**

## Manylion am yr Awdur

**Yr Athro Keith Moultrie** yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (SGC).

Mae **Simon Bilous** yn Ymchwilydd Cysylltiol yn y SGC.

Mae'r IPC yn rhan o Brifysgol Brookes Rhydychen. Sefydlwyd y SGC yn 1987 ac mae'n gweithio ledled y DU. Eu diben yw arwain arloesi a gwella ym myd gofal.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Dan Bristow**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk